

# Rhaglen Genedlaethol Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio (SSHP Cymru)

## Allbynnau 2020 – 2023/24

Yng ngwanwyn 2020, ariannodd Llywodraeth Cymru recriwtio cydlynedd cenedlaethol, a thri arweinydd rhanbarthol fel gweithlu pwrpasol i ysgogi gweithrediad y strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niweidio genedlaethol (2015-2020/22).

**Roedd angen ffocysu'n benodol ar dair ffrwd waith allweddol:**



ôl-ymyrraeth (cymorth ar ôl hunanladdiad);



gwyliadwriaeth o farwolaethau o ganlyniad i achosion tybiedig o hunanladdiad wrth iddynt ddigwydd; a



datblygu'r gweithlu a dysgu i gynyddu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau ar draws sectorau a chymunedau



**Statws cyfredol ac adolygiad o ddatblygiadau mewn polisi a thystiolaeth**

Adroddiad ar y Grŵp Cyngori Cenedlaethol ar atal hunanladdiad a hunan-niweidiol yng Nghymru



Mae'r gweithlu cenedlaethol bellach yn adnodd parhaol yng Ngweithrediaeth y GIG, sef y Rhaglen Genedlaethol Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio. Mae strategaeth genedlaethol newydd yn cael ei datblygu ar gyfer 2024-34 a bydd y tîm cenedlaethol yn allweddol wrth gefnogi a hwyluso gweithrediad y strategaeth newydd.

### Ôl-ymyrraeth (cymorth ar ôl hunanladdiad)



**Gweithio gyda phobl sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad yng Nghymru**

Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen/Gweithredu Cenedlaethol i ddatblygu a goruchwyllo ein hymateb i bobl yr effeithir arnynt gan hunanladdiad.

**Canllawiau Cenedlaethol drafft ar ymateb systemau Cymru gyfan i'r rhai sy'n dod i gysylltiad â marwolaethau o ganlyniad i hunanladdiad, neu sydd mewn profedigaeth oherwydd hunanladdiad neu yr effeithir arnynt gan farwolaethau oherwydd hunanladdiad**



Manyleb a chefnogaeth ar gyfer comisiynu Gwasanaeth Cyngori a Chyswllt Cenedlaethol i weithredu fel pwynt cyswllt cynnar ac un pwynt cyswllt (lansiwyd Ch1/2024)



Digido adnodd **Cymorth wrth Law Cymru**

**GRASSROOTS**  
SUICIDE PREVENTION



Datblygu unedau dysgu ar gymorth ar ôl hunanladdiad, wedi'u hachredu'n genedlaethol gan **AGORED**



**Datblygu gwyliadwriaeth achosion tybiedig o hunanladdiad ar gyfer Cymru**



Sefydlu Grŵp Gweithredu Arolygu Hunanladdiad Tybiedig Amser Real' (RTSSS) Cenedlaethol



Sefydlu cysylltiadau â systemau gwyliadwriaeth eraill y DU



**Hwyluswyd ymgysylltiad lechyd Cyhoeddus Cymru fel ceidwaid y data ar gyfer Cymru**

# Rhaglen Genedlaethol Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio (SSHP Cymru)

## Allbynnau 2020 – 2023/24



### Codi ymwybyddiaeth, gwybodaeth a sgiliau ledled Cymru



Datblygu a lansio platform digidol

Cefnogi gweithgarwch atal hunanladdiad a hunan-niweidio ledled Cymru. Mae **HWB Digidol Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio (SSHP) Cymru** yn darparu mynediad at gynigion hyfforddiant, gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer gweithwyr rheng flaen.



Cefnogi trefnu **Cynhadledd Cenedlaethol** y Grŵp Cyngori Cenedlaethol (NAG) ar atal hunanladdiad a hunan-niweidio ar 3 Mawrth 2023 - bu dros 250 yn bresennol.



#### **Arolwg cenedlaethol o anghenion hyfforddi aml-asiantaeth**

Wedi'i anelu at y rhai sy'n gweithio'n aml gyda phobl yr effeithir arnynt gan hunanladdiad a hunan-niweidio.



#### **Cydweithio â Sgiliau Iechyd i ddatblygu set o ganlyniadau dysgu ar gyfer israddedigion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru.**



Datblygu **modiwl ar-lein ar ymwybyddiaeth o hunanladdiad**, ar gyfer cynulleidfa gyffredinol



Cynllunio a chyflwyno gweithdai a gweminarau ar ffrydiau gwaith neu bynciau penodol i gefnogi gweithwyr rheng flaen



Ariannu nifer o gyrsiau hyfforddi allanol i'r gweithlu ledled Cymru



### Gwaith ychwanegol



Ymgysylltodd y tîm atal hunanladdiad a hunan-niweidio ag eraill i sefydlu gwell dealltwriaeth o feysydd allweddol, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niwed 10 mlynedd nesaf Cymru (2024-2034).



Support  
After Suicide  
Partnership

#### **Deall anghenion cymorth plant a phobl ifanc sydd mewn profedigaeth o ganlyniad i gollu rhywun sy'n agos atynt oherwydd hunanladdiad**



Ymgysylltu â Chyngor Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.



Deall y ddarpariaeth bresennol mewn Gofal Sylfaenol

Cefnogi'r bobl sy'n ymgyflwyno â hunan-niweidio a hunanladdiad mewn lleoliadau gofal sylfaenol.

Gweithio ar y cyd ag Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Prifysgol Abertawe



#### **Deall y materion sy'n bwysig i ddynion sydd angen cymorth gyda'u hiechyd meddwl ac emosiynol a phan fyddant mewn argyfwng**



Cyflwyno gweithdai darganfod rhanbarthol (dan arweiniad grwpiau dynion i ddynion); a'r pwyntiau dysgu allweddol o adroddiad blynyddol cyntaf y RTSSS.



Canolfan Iechyd Meddwl a Chymdeithas Prifysgol Bangor i baratoi 'dadansoddiad o'r sefyllfa'.